ATODLEN 2

Monitro TSE

# RHAN 1

## Monitro ar gyfer TSE

### Cigydda anifeiliaid buchol dros 30 mis oed

**5.**—(1) Cyflawnir tramgwydd gan feddiannydd sy'n defnyddio lladd-dy i gigydda anifeiliaid buchol dros 30 mis oed i'w bwyta gan bobl, oni fydd Gweinidogion Cymru wedi cymeradwyo'r Dull Gofynnol o Weithredu ("DGW") ar gyfer y lladd-dy hwnnw a'r meddiannydd hwnnw.

(2) Rhaid i'r DGW, o leiaf—

(a) ddisgrifio'r gweithdrefnau a fydd yn cael eu dilyn i gydymffurfio â Rhan 1 o'r Atodlen hon; a

(b) disgrifio'r holl systemau a gweithdrefnau a nodir yn Rhan 2 o'r Atodlen hon.

(3) Rhaid i Weinidogion Cymru gymeradwyo'r DGW os bodlonir hwy y cydymffurfir â holl ofynion Rheoliad TSE y Gymuned a'r Rheoliadau hyn, a rhaid i'r meddiannydd ddangos hynny yn ystod asesiad a fydd yn parhau am ddau ddiwrnod lle bydd anifeiliaid yn cael eu cigydda (gan ddefnyddio anifeiliaid buchol o dan 30 mis oed oni fydd y lladd-dy yn gweithredu at ddibenion Rheoliad y Comisiwn (EC) Rhif 716/96 sy'n mabwysiadu mesurau cymorth eithriadol ar gyfer y farchnad cig eidion yn y Deyrnas Unedig (**1**)).

(4) Os cigyddir anifeiliaid buchol sydd dros 30 mis oed ar gyfer eu bwyta gan bobl mewn unrhyw fodd ac eithrio yn unol â'r DGW, mae meddiannydd y lladd-dy yn euog o dramgwydd.

(**1**) OJ Rhif L 99, 20.4.96, t. 14, fel y'i diwygiwyd ddiwethaf gan Reoliad y Comisiwn (EC) Rhif 2109/2005 (OJ Rhif L 337, 22.12.2005, t. 25).